Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 19 (Cy. 7)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy’n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn yn dynodi’r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy’n symud at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae’r ardal honno eisoes wedi ei dynodi’n ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio o dan y Ddeddf honno gan Orchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2011 (O.S. 2011/2868 (Cy. 307)).

Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i orfodi’r gyfraith ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy’n symud yn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn drwy gyfundrefn cyfraith sifil.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 19 (Cy. 7)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Ionawr 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *10 Ionawr 2025* |
| *Yn dod i rym* | *6 Chwefror 2025* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraffau 9(1) a 10(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("y Ddeddf")(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o ardal y Cyngor hwnnw(**3**). Mae'r ardal i'w dynodi o dan y Gorchymyn yn ardal o fewn ardal, neu'n ardal sy'n gyfled ag ardal, sydd eisoes wedi ei dynodi'n ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio fel sy'n ofynnol gan baragraffau 9(2) a 10(2) o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

(**1**) 2004 p. 18.
(**2**) Yn rhinwedd adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, diffiniwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) Gwnaed y cais o dan baragraffau 9 a 10 o Atodlen 8 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p. 18).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â'r gofyniad a nodir ym mharagraff 10(4) o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

**Enwi a chychwyn**

**1. —**(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2025.

**Dynodi ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud**

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau, a

(b) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig sy'n symud.

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru
8 Ionawr 2025

## YR ATODLEN

Erthygl 2

## Yr ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thramgwyddau traffig sy'n symud

Ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac eithrio—

(a) y darn cyfan o'r A4060 o'i chyffordd â chylchfan Abercanaid yr A470 hyd at ei chyffordd â chylchfan Dowlais yr A465 gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Pentrebach, cylchfan Parc Busnes Triangle a chylchfan Mountain Hare;

(b) y darn hwnnw o'r A470 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 320 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Abercynon yr A470 hyd at y ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 895 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Cefncoedycymer gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Abercanaid, cylchfan Rhyd-y-car a chylchfan Swansea Road;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) y darn hwnnw o’r A470 o’r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 351 o fetrau i’r de o gyffordd Upper High Street Cefncoedycymer yr A4054 hyd at y ffin â Sir Powys ym Mhont Llysiog, a

(d) y darn hwnnw o’r A465 o’r ffin â Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth bwynt oddeutu 550 o fetrau i’r dwyrain o gylchfan Dowlais Top yr A465 hyd at y ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 13 o fetrau i’r dwyrain o’i chyffordd â’r B4276 Merthyr Road gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael a cherbytffordd gylchredol cylchfan Dowlais yr A465/A4060, cylchfan Dowlais Top yr A465 a chylchfan Cefncoedycymer.